# Pleidleisiau a Thrafodion – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Iau, 5 Medi 2019

Amser y cyfarfod: 13.00

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5865

# 225

## 1 Dadl – Brexit ac addoedi Senedd y DU

Dechreuodd yr eitem am 13.00

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM7128**

Rebecca Evans (Gŵyr)

Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cyd-weld â Llefarydd Tŷ'r Cyffredin ei bod yn warth cyfansoddiadol fod Prif Weinidog y Deyrnas Unedig wedi cynghori'r Frenhines i addoedi'r Senedd am bum wythnos a mwy, a'r wlad mewn argyfwng.

2. Yn ailadrodd ei farn y byddai Brexit heb gytundeb yn tarfu'n sylweddol ar Gymru yn y tymor byr ac yn achosi niwed difrifol iddi yn y tymor hir, ac na ddylai'r Deyrnas Unedig, felly, ymadael â'r UE heb gytundeb ar unrhyw gyfrif; ac yn credu nad yw refferendwm 2016 nac Etholiad Cyffredinol 2017 yn rhoi mandad ar gyfer gweithredu yn y fath fodd.

3. Yn galw ar Aelodau Seneddol i ddefnyddio unrhyw ddull cyfreithiol a chyfansoddiadol sydd ar gael i atal Llywodraeth y DU rhag dilyn trywydd a fydd yn

golygu na cheir cytundeb yn sgil y negodiadau Brexit; ac i sicrhau, yn wyneb y sefyllfa sydd ohoni, fod y penderfyniad ynglŷn ag ymadael â’r UE ai peidio yn cael ei roi yn ôl yn nwylo’r etholwyr mewn refferendwm.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Caroline Jones**

**Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:**

**Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:**

1. O'r farn bod yn well i ddeddfwrfeydd gael eu llywyddu gan aelod sy'n wleidyddol niwtral ac yn ymatal rhag arddel safbwyntiau dadleuol neu bleidiol a allai danseilio didueddrwydd ei swydd.

2. Yn cefnogi Brexit sy'n gadael yr UE yn llwyr yng ngoleuni'r ffaith bod llawer o Aelodau Seneddol yn gwrthod derbyn canlyniad refferendwm 2016 a diffyg hyblygrwydd yr Undeb Ewropeaidd yn ei safbwynt negodi.

3. Yn galw ar Lywodraeth y DU i ddefnyddio'r holl ddulliau angenrheidiol a phriodol i weithredu canlyniad refferendwm 2016, lle y pleidleisiodd y DU a Chymru o blaid gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 4 | 0 | 38 | 42 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 – Rhun ap Iorwerth**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Os bydd yn wynebu’r posibilrwydd o Brexit heb gytundeb, a dim mandad iddo, yn galw ar i Erthygl 50 gael ei dirymu.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 9 | 0 | 35 | 44 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 – Rhun ap Iorwerth**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Os caiff yr etholwyr gynnig etholiad cyffredinol yn hytrach na refferendwm i ddatrys yr argyfwng Brexit, yn galw ar bleidiau sydd o blaid aros, i ymgyrchu dros bolisi o ddirymu Erthygl 50 a pharhau yn yr UE.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 9 | 0 | 35 | 44 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 – Rhun ap Iorwerth**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn paratoi at y posibilrwydd o ganlyniad heb gytundeb yn y pen draw drwy alw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu Confensiwn Cyfansoddiadol Cenedlaethol i Gymru, gan gynnwys Cynulliad Dinasyddion; ystyried pob opsiwn ar gyfer dyfodol cyfansoddiadol Cymru, gan gynnwys annibynniaeth, a dechrau paratoi at refferendwm i bobl Cymru benderfynu ar eu dyfodol cyfansoddiadol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 9 | 0 | 35 | 44 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 – Neil McEvoy**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y gallai canlyniad Brexit heb gytundeb, ac agenda genedlaetholaidd yr asgell dde a gaiff ei dilyn gan Lywodraeth y DU yn Llundain arwain, yn fuan iawn, at wahanu gwleidyddol llawn y cenhedloedd sydd, ar hyn o bryd, yn ffurfio gwladwriaeth y DU ac, i baratoi at y posibilrwydd hwn, yn penderfynu:

a) ymgysylltu â gwleidyddion etholedig ar bob lefel yng Nghymru i sefydlu confensiwn cyfansoddiadol, gyda'r dasg o lunio sut y byddai Cymru sofran y dyfodol yn ymddangos, gan nodi ei pherthynas yn y dyfodol â rhannau cyfansoddol yr hen Deyrnas Unedig;

b) creu cynulliadau'r bobl, i gynnwys aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru sydd â diddordeb, gan gynnwys Senedd Ieuenctid Cymru, i gyfrannu at waith y confensiwn cyfansoddiadol hwn.

c) ymgysylltu â'r meddyliau cyfreithiol gorau yng Nghymru a thu hwnt i ysgrifennu cyfansoddiad drafft ar gyfer Cymru sofran y dyfodol, i'w drafod, ei ddiwygio a'i fabwysiadu yn y pen draw gan gonfensiwn cyfansoddiadol;

d) ymgysylltu â'r economegwyr gorau o Gymru a thu hwnt, sydd wedi ymrwymo i ddyfodol economaidd ac amgylcheddol cynaliadwy Cymru sofran, i lunio dulliau realistig i gyflawni hyn;

e) ffurfio pwyllgor o'r Cynulliad hwn, a fyddai'n cynnwys Aelodau Cynulliad sydd â diddordeb, beth bynnag fo'u cysylltiadau pleidiol, i ddiffinio'r cylch gorchwyl a phenodi cadeirydd ac is-gadeiryddion ar gyfer y confensiwn cyfansoddiadol a goruchwylio ei effeithiolrwydd a'i gynnydd;

f) rhoi'r dasg i Lywodraeth Cymru o ddarparu'r adnodd angenrheidiol i alluogi'r uchod yn llawn.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 1 | 8 | 35 | 44 |

**Gwrthodwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 – Rhun ap Iorwerth**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu manylion llawn y dogfennau bras melyn sy'n ymwneud â senario dim cytundeb a ddarparwyd ar ei chyfer.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 9 | 0 | 35 | 44 |

**Derbyniwyd/Gwrthodwyd gwelliant 6.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

**NDM7128**

Rebecca Evans (Gŵyr)

Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cyd-weld â Llefarydd Tŷ'r Cyffredin ei bod yn warth cyfansoddiadol fod Prif Weinidog y Deyrnas Unedig wedi cynghori'r Frenhines i addoedi'r Senedd am bum wythnos a mwy, a'r wlad mewn argyfwng.

2. Yn ailadrodd ei farn y byddai Brexit heb gytundeb yn tarfu'n sylweddol ar Gymru yn y tymor byr ac yn achosi niwed difrifol iddi yn y tymor hir, ac na ddylai'r Deyrnas Unedig, felly, ymadael â'r UE heb gytundeb ar unrhyw gyfrif; ac yn credu nad yw refferendwm 2016 nac Etholiad Cyffredinol 2017 yn rhoi mandad ar gyfer gweithredu yn y fath fodd.

3. Yn galw ar Aelodau Seneddol i ddefnyddio unrhyw ddull cyfreithiol a chyfansoddiadol sydd ar gael i atal Llywodraeth y DU rhag dilyn trywydd a fydd yn golygu na cheir cytundeb yn sgil y negodiadau Brexit; ac i sicrhau, yn wyneb y sefyllfa

sydd ohoni, fod y penderfyniad ynglŷn ag ymadael â'r UE ai peidio yn cael ei roi yn ôl yn nwylo'r etholwyr mewn refferendwm.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 32 | 0 | 12 | 44 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 2 Cyfnod pleidleisio

## Crynodeb o Bleidleisiau

Daeth y cyfarfod i ben am 16.05

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 17 Medi 2019**